



Adroddiad Cydymffurfio Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2017-18 (1 Ebrill 2018 – 31 Gorffennaf 2018)

Paratowyd yn unol â gofynion Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011

Robin Gwyn, Cyfarwyddwr Dwyieithrwydd – Ionawr 2019

CYNNWYS

- 1. Rhagarweiniad**
- 2. Cydymffurfio â Safonau Cyflenwi Gwasanaethau, Safonau Llundio Polisi a Safonau Gweithredu**
- 3. Monitro Cydymffurfedd**
- 4. Cwynion**
- 5. Sgiliau Iaith Gymraeg Staff**
- 6. Hyfforddiant Staff**
- 7. Recriwtio Staff i Swyddi Gwag**
- 8. Manylion Cyswllt am Ragor o Wybodaeth**

1. Rhagarweiniad

Derbyniwyd Hysbysiad Cydymffurfio Terfynol Comisiynydd y Gymraeg gan Grŵp Colegau NPTC ym mis Medi 2017. Roedd hyn yn amlinellu dyletswydd y Coleg i gwrdd â Safonau'r Gymraeg statudol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Cyflwynwyd y cysyniad o Safonau'r Gymraeg gan Lywodraeth Cymru fel set o ofynion cyfreithiol rhwymol i gael eu rheoleiddio'n annibynnol gan Gomisiynydd y Gymraeg. Mae'r safonau yn sefydlu hawliau cyfartal i siaradwyr Cymraeg a siaradwyr Saesneg, yn seiliedig ar ddwy egwyddor:

- **'Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru'**
- **'Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno'**

Yn unol â Gweledigaeth a Chynllun Strategol presennol y Coleg, bydd cydymffurfio statudol yn darparu llinell sylfaen i'r Coleg sicrhau y bydd y gwasanaeth Cymraeg a ddarperir o'r un ansawdd a hygyrchedd â'r gwasanaeth Saesneg a ddarperir:

- *"Bod yn goleg sy'n hyrwyddo dysgu cyfrwng Cymraeg a dysgu dwyieithog:*
- *"10.1 cynyddu'n gynyddol faint o ddysgu cyfrwng Cymraeg / dwyieithog sydd ar gael er mwyn cefnogi strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru.*
- *"10.2 cynyddu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a diwylliant Cymru ymhlith myfyrwyr a staff a sefydlu ethos Cymraeg ar gampysau yng Nghymru.*
- *"10.3 datblygu gallu a sgiliau staff academaidd i ddarparu cynnydd arfaethedig yn y cwricwlwm cyfrwng Cymraeg a dwyieithog."*

2. Cydymffurfio â Safonau Cyflenwi Gwasanaethau, Safonau Llunio Polisi a Safonau Gweithredu

Er mwyn hybu a hwyluso cydymffurfio, mae'r Coleg wedi gweithredu'r canlynol:

- Creu Tîm Prosiect Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg (Medi 2017) - gan gynnwys Arweinydd Ffrwd Gwaith sy'n cynrychioli Adnoddau Dynol, Marchnata, Cymorth i Fyfrwyr, TG, Colegau, Gweinyddiaeth a Phenaethiaid Ysgol
- Sesiynau Hyfforddi i Reolwyr i Godi Ymwybyddiaeth a Chynnig Arweiniad Ymarferol ynglŷn â Safonau'r Gymraeg a gynhaliwyd yng Nghastell-nedd a'r Drenewydd -13,14, 15 a 23 Mawrth 2018 (ar gyfer yr Uwch Dîm Rheoli yn ogystal â 45 o reolwyr swyddogaethol a Phenaethiaid Ysgol).
- Gweithdai hyfforddi i staff allweddol i godi ymwybyddiaeth a gynhaliwyd yn Y Drenewydd, Bannau Brycheiniog, Castell-nedd ac Afan (3-5 Gorffennaf 2018). Bydd rhaglen dreigl o sesiynau arweiniad pellach yn ystod 2019 i gynnwys pob coleg a phob campws
- Penodi Cyfieithydd ar y Pryd ychwanegol (mis Mai 2018) i hwyluso cynnal cyfarfodydd myfyrwyr/staff a digwyddiadau cyhoeddus yn ddwyieithog.
- Memo a anfonwyd gan y Prif Weithredwr at bob aelod o staff ynghylch cyflwyno Safonau'r Gymraeg a chwrs iaith gorfodol 10 awr ar-lein sef 'Iaith Gwaith' ar gyfer yr holl staff presennol ac unrhyw benodiadau newydd a wneir yn y dyfodol.

Ffigurau ym mis Ionawr 2019:

Wedi cofrestru ar y cwrs: 671

Wedi cwblhau'r cwrs: 554

Heb ddechrau'r cwrs: 16

Yn cyflawni'r cwrs ar hyn o bryd: 101.

Mae pob unigolyn yn derbyn pecyn llongyfarch a thystysgrif ar ôl cwblhau'r 10 uned. Mae'r ymateb calonogol hwn yn deyrnged i ymrwymiad ein staff ac ymdrechion Datblygu Staff ac Adnoddau Dynol. O ganlyniad, mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn bwriadu defnyddio NPTC fel enghraifft o arfer da yn un o'u hastudiaethau achos.

- Cytunwyd ar brosiect ar gyfer staff academaidd (tua 13 aelod o staff) gyda Cholegau Cymru/Iaith Gwaith 2018/19. Cyrsiâu i gael eu cynnal dros ddau dymor:

Tymor 1 – 3 Medi 2018 - 21 Rhagfyr 2018

Tymor 2 – 7 Ionawr 2019 – 12 Ebrill 2019

Disgwylir i staff cofrestredig gwblhau'r cwrs 10 awr ar-lein Iaith Gwaith. Bydd hefyd chwe awr o hyfforddiant/gweithgareddau ychwanegol drwy gydol y tymhorau e.e. Sgiliaith.

- Mae Strategaeth Sgiliau Iaith y Grŵp (LSS) (a gymeradwywyd gan uwch dîm rheoli a Bwrdd y Gorfforaeth ym mis Gorffennaf 2016) yn allweddol i weithredu Safonau'r Gymraeg yn llwyddiannus. Nod y LSS yw datblygu dull strategol o ran recriwtio a hyfforddi staff i gau'r bwch sgiliau rhwng y capasiti presennol a'r gofynion swyddogaethol a nodwyd gan y Safonau - yn ogystal â rhoi blaenoriaeth i ddarparu opsiynau modiwlau pynciau galwedigaethol yn ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg i adlewyrchu meysydd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru.

Yn dilyn archwiliad a arweiniwyd gan Adnoddau Dynol o anghenion iaith y sefydliad (a sgiliau iaith presennol y gweithlu) yn 2016-17, mae nifer o adrannau wedi ymateb i'r gofynion hyn mewn dull trefnus, cydgyssylltiedig ac adeiladol. Er mwyn sicrhau bod y dull LSS yn cael ei gymhwysu'n gyson ar draws y sefydliad, bydd rhagor o seminarau hyfforddi cynhwysfawr ar gyfer rheolwyr yn cael eu trefnu gan Ddatblygu Staff yn 2019.

- 'Polisi Iaith Gymraeg' newydd i ddisodli 'Cynllun Iaith Gymraeg' Grŵp Colegau NPTC. Mae hyn yn disgrifio sut y bydd y Coleg yn sicrhau cydymffurfio statudol ac yn mynd i'r afael â nifer o Safonau sy'n ymdrin â chofnodi, monitro ac adrodd ar ddangosyddion perfformiad allweddol (fe'i cyflwynwyd i'r Uwch Dîm Rheoli ar 5 Medi a'i gymeradwyo gan y Grŵp Polisi ar 11 Hydref).
- Parhau i gyflwyno protocolau a chanllawiau i sicrhau cydymffurfedd statudol, tryloywder ac atebolrwydd mewn perthynas â'r safonau cyflenwi gwasanaethau, y safonau llunio polisi, y safonau gweithredu, y safonau cadw cofnodion a'r safonau sy'n ymdrin â materion atodol.

Gellir crynhoi'r cynnydd o ran cydymffurfio hyd at 31 Ionawr 2019 fel a ganlyn:

SAFONAU	DYDDIADAU GOSOD (2018)	CYNNYDD
1-22 Gohebiaeth a galwadau ffôn	1 Ebrill	Ar y trywydd cywir - cofnodi a chynnig dewis iaith drwy gyfrwng meddalwedd Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM - Microsoft Dynamics 365) a system ffôn awtomataidd
24-42 Cyfarfodydd a digwyddiadau	1 Ebrill	Ar y trywydd cywir
43-54 Dogfennau	1 Ebrill	Ar y trywydd cywir. Cyfieithu parhaus.
55-63 Gwefannau a'r Cyfryngau cymdeithasol	1 Ebrill ac 1 Hydref	Roedd prif wefan a mewnrwyd y Grŵp i fod i gydymffurfio'n llwyr erbyn 1 Hydref – ond mae angen gwaith/adnoddau sylweddol ychwanegol. Mae'r Adran Farchnata yn ystyried nifer o opsiynau
64-67 Arwyddion cyhoeddus	1 Ebrill	Ar y trywydd cywir
68-74 Gwasanaethau derbynfa		Mae recriwtio staff cwbl ddwyieithog ar gyfer y derbynfydd ym mhob safle/campws y Coleg yn heriol. Yn y cyfamser, mae'r staff presennol yn parhau i gael hyfforddiant.
75-84 Cyllid a chaffael	1 Ebrill	Ar y trywydd cywir
85-93 Cyhoeddusrwydd a Hawliau Myfyrwyr	1 Ebrill	Ar y trywydd cywir
94-104 Llunio polisïau, ymgynghori ac ymchwil	1 Ebrill	Ar y trywydd cywir Diwygiwyd yr Asesiad Cydraddoldeb ac Effaith Ieithyddol i adlewyrchu'r Safonau. At hynny, penderfynodd y Grŵp Polisi ddiwygio'r templedi ar gyfer y dogfennau Cynnig am Bolisi a Llunio Polisi i adlewyrchu gofynion y Safonau sy'n ymwneud â llunio polisïau, ymchwilio ac ymgynghori.
105-149 Polisïau AD a Mewnrwyd(au) TG	1 Ebrill ac 1 Hydref	Ar y trywydd cywir. Hyfforddiant pellach parthed dyletswyddau Rheolwyr mewn perthynas â'r 'Strategaeth Sgiliau Iaith' (cynlluniau i gau'r bwllch rhwng cydymffurfio gofynnol a chapasiti staff presennol drwy recriwtio a/neu ddatblygu staff) ar y gweill ar gyfer 2019.
150-153 Arwyddion yn y gweithle	1 Ebrill	Ar y trywydd cywir
154-157 Cwynion	1 Ebrill	Ar y trywydd cywir. Cytunwyd ar sut i ddiwygio'r Weithdrefn Gwyno gyda'r Swyddog Llywodraethiant.
158-162 Cadw cofnodion adnoddau dynol	1 Ebrill	Ar y trywydd cywir

163-182 Monitro ac adrodd	1 Ebrill	Diwygiwyd y 'Cynllun Iaith Gymraeg' a'i droi yn 'Bolisi Iaith Gymraeg' i adlewyrchu dyfodiad y Safonau
----------------------------------	----------	--

3. Monitro cydymffurfedd

Mae gan y Prif Weithredwr ("CEO") gyfrifoldeb cyffredinol am weithredu'r Polisi Iaith Gymraeg. Bydd y Prif Weithredwr yn sicrhau bod uwch reolwr yn atebol am weithredu a monitro'r polisi.

Mae rheolwyr llinell yn atebol am weithredu'r agweddau hynny ar y Polisi sy'n berthnasol i'w meysydd cyfrifoldeb ac am ddarparu adborth ar gydymffurfio yn y meysydd hyn mewn perthynas â gofynion y Polisi. Bydd Bwrdd y Gorfforaeth yn dynodi Aelod gyda chyfrifoldeb dynodedig ar gyfer hyrwyddo dwyieithrwydd.

Mae gan y Gweithgor Dwyieithrwydd (BWG), dan gadeiryddiaeth y Pennaeth Cynorthwyol: Cwricwlwm, gyfrifoldeb cyffredinol am fonitro a gweithredu'r polisi mewn cydweithrediad â grŵp craidd y Gweithgor Dwyieithrwydd (a gyda chymorth y grŵp hwnnw), sef y Cyfarwyddwr Dwyieithrwydd, y Cyd-gysylltydd Datblygu Dwyieithog, Cyfieithwyr y Coleg a Swyddog Cymorth Busnes y Penaethiaid Cynorthwyol.

Mae'r Cyfarwyddwr Dwyieithrwydd yn gyfrifol am ei weithredu o safbwynt gweithredol gyda chynnydd yn cael ei fonitro a'i werthuso drwy baratoi:

- Adroddiadau bob chwarter ar gynnydd ar gyfer y Gweithgor Dwyieithrwydd/Uwch Dîm Rheoli;
- Adroddiadau blynyddol sy'n cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg (Cadw cofnodion a materion atodol);
- Archwiliadau rheolaidd a gwiriadau siopwr dirgel i fonitro effeithiolrwydd ymatebion i argymhellion Estyn.

Fe dynnir rhwymedigaethau'r Polisi at sylw staff yn ystod y broses ymsefydlu i staff a thrwy gyfrwng rhaglen dreigl barhaus o sesiynau ymwybyddiaeth. Fe atgyfnerthir hyn drwy osod y Polisi ar fewnwyd y staff, ar wefan y coleg ac ar fewnwyd y myfyrwyr.

4. Cwynion

Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion ynghylch unrhyw agwedd ar wasanaethau'r Gymraeg rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Gorffennaf 2018. Mae'r Coleg wedi diweddarau ei Bolisi Cwynion drwy ychwanegu cymal sy'n ymdrin yn benodol â chwynion sy'n ymwneud â Safonau'r Gymraeg a'r iaith Gymraeg. Bydd cwynion sy'n ymwneud â Safonau'r Gymraeg y mae gofyn i'r Coleg gydymffurfio â hwy yn cael eu trin yn yr un modd ag unrhyw gŵyn arall drwy ddefnyddio gweithdrefn gwyno'r Coleg.

Mae holl reolwyr y Coleg yn derbyn diweddiariad hyfforddi blynyddol ar sut i ymdrin â/rheoli cwynion. Mae'r hyfforddiant hwn yn cynnwys ymdrin â chwynion sy'n ymwneud â Safonau'r Gymraeg y mae'n rhaid i'r coleg gydymffurfio â hwy. Fe gyfeirir yn benodol at Reoliadau (Rhif 6) Safonau'r Gymraeg 2017, yr Hysbysiad Cydymffurfio – Adran 44 Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 a Memorandwm Esboniadol i Reoliadau (Rhif 6) Safonau'r Iaith Gymraeg 2017.

5. Sgiliau iaith Gymraeg Staff (ar 31 Gorffennaf 2018)

Safon 178:

- (a) *Nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw (ar sail cofnodion a gedwir yn unol â safon 158: Rhaid ichi gadw cofnod o nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol a, phan fo hynny'n wybyddus ichi, rhaid ichi gadw cofnod o lefel sgiliau'r cyflogeion hynny.)*

Mae gofyn i staff ddiweddarau a chynnal eu sgiliau iaith Gymraeg drwy'r dangosfwrdd adnoddau dynol (system adnoddau dynol a chyflogres). Yn ôl y cofnodion a ddelir ar 31 Gorffennaf 2018, cofnodwyd bod cyflogeion y Coleg yn meddu ar sgiliau iaith Gymraeg ar y lefelau canlynol.

	Siarad	Darllen	Ysgrifennu	Deall
Rhugl	41	34	22	46
Da	18	26	30	20
Sylfaenol	211	183	167	209
Dysgu	52	50	52	43
Dim sgiliau o gwbl	28	57	80	33
Anhysbys	428	429	428	428
Gwell gennyf beidio â dweud	45	44	44	44
Cyfanswm	823	823	823	823

6. Hyfforddiant Staff (1 Ebrill 2018 – 31 Gorffennaf 2018)

Safon 178:

- (b) *nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd gennych yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 159);*
- (c) *os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn ystod y flwyddyn honno, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg – yn cynnwys y nifer (a'r ganran os yn berthnasol) o aelodau o staff a fynychodd hyfforddiant penodol y mae rhaid ichi ei ddarparu yn Gymraeg os ydych yn darparu hyfforddiant o'r fath yn Saesneg (hynny yw recriwtio a chyfweld, rheoli perfformiad, gweithdrefnau cwyno a disgyblu, ymsefydlu, delio â'r cyhoedd ac iechyd a diogelwch).*

- **Ymwybyddiaeth/Arweiniad ynghylch Safonau'r Gymraeg:**

24 o staff (Gorffennaf a Rhagfyr 2018). Mae'r Cyfarwyddwr Dwyieithrwydd wedi bod yn darparu hyfforddiant a sesiynau holi ac ateb ar Safonau'r Gymraeg newydd, sydd wedi bod yn llwyddiannus.

- **cwrs 10 awr ar-lein iaith Gwaith (Cwrs Croeso):**

Cafwyd ymateb ardderchog i'r Cwrs Croeso, gyda llawer o staff yn ymrestru ar gyrsiau Dysgu Cymraeg neu ar y cwrs Croeso nôl ar ôl ei gwblhau. Mae'r cwrs hwn ynghyd ag Ein Hiaith yn rhan o broses ymsefydlu'r coleg, rhaid i bob aelod newydd o staff gwblhau'r ddau gwrs hwnnw wrth ddechrau yn y coleg. Ffigurau ym mis Ionawr 2019:

Wedi cofrestru ar y cwrs: 671

Wedi cwblhau'r cwrs: 554

Heb ddechrau'r cwrs: 16

Yn cyflawni'r cwrs ar hyn o bryd: 101.

Mae pob unigolyn yn derbyn pecyn llongyfarch a thystysgrif ar ôl cwblhau'r 10 uned, ynghyd â llyfryn ymadroddion Cymraeg.

Mae'r ymateb calonogol hwn yn deyrnged i ymrwymiad ein staff ac ymdrechion Datblygu Staff ac Adnoddau Dynol. O ganlyniad, dywedodd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ei bod yn bwriadu ein defnyddio fel enghraifft o arfer da yn un o'u hastudiaethau achos.

- **Prosiect peilot iaith Gwaith gan Golegau Cymru i gefnogi darlithwyr mewn colegau addysg bellach:**

Y targed yw darparu 120 awr o Gymraeg er mwyn datblygu'r ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog, drwy ganolbwyntio ar staff addysgu. Mae 6 aelod o staff ar y cynllun addysgu ar hyn o bryd - mae 80% yn staff addysgu ac asesu ac mae 20% yn staff cymorth.

Mae'r fformat 120 awr eleni (2018-19) yn cynnwys:

- Oriau addysgu ffurfiol (tua 3 i 4 awr yr wythnos)
- Sesiwn 1:1 (1 awr bob wythnos)
- Gwaith cartref
- Cyrsiau Sgiliaith
- Sesiynau anffurfiol e.e. boreau coffi, siaradwyr gwadd
- Diwrnodau iaith / hyfforddi
- Ymweliadau

- **Cyrsiau Dysgu Cymraeg**

Aeth 32 o staff o gampysau CnPT a Phowys i 'Sesiwn Blasu' yn ystod yr wythnos weinyddol ac aeth 5 aelod o staff i ysgolion haf Dysgu Cymraeg yn Aberystwyth ac Abertawe.

- **Polisiâu a Gweithdrefnau Adnoddau Dynol**

Rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Gorffennaf 2018 ni ddarparwyd unrhyw hyfforddiant (neu ni ofynnwyd amdano) drwy gyfrwng y Gymraeg yn y meysydd canlynol:

- recriwtio a chyfweld;
- . rheoli perfformiad
- gweithdrefnau cwyno a disgyblu;
- delio â'r cyhoedd;
- . iechyd a diogelwch

Gofynnodd un aelod o staff am gael y broses ymsefydlu yn ddwyieithog/ drwy gyfrwng y Gymraeg ac fe'i darparwyd iddo.

7. Recriwtio Staff (1 Ebrill 2018 – 31 Gorffennaf 2018) Safon 178:

(ch) nifer yr aelodau o staff sy'n gwisgo bathodyn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 160);

d) nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn-

(i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol;

(ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd;

(iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol, neu

(iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol,

(ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 162);

Yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2018 hyd 31 Gorffennaf 2018, hysbysebwyd cyfanswm o 82 o swyddi gan y Coleg. Gellir eu dosbarthu fel a ganlyn;

- Hysbysebwyd cyfanswm o 9 o swyddi lle yr oedd sgiliau iaith Gymraeg yn cael eu hystyried yn hanfodol;
- Ni ddynodwyd unrhyw swyddi fel swyddi lle y byddai angen dysgu sgiliau iaith Gymraeg ar ôl penodi
- Hysbysebwyd cyfanswm o 73 swydd lle yr oedd sgiliau iaith Gymraeg yn cael eu hystyried yn ddymunol;
- Ni hysbysebwyd unrhyw swyddi lle nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.

8. Rhagor o Wybodaeth

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr adroddiad hwn neu unrhyw agwedd ar gydymffurfiaeth Grŵp Colegau NPTC â Safonau'r Gymraeg, cysylltwch â:

Robin Gwyn

Cyfarwyddwr Dwyieithrwydd, Grŵp Colegau NPTC,

07787 125 711, robin.gwyn@nptcgroup.ac.uk